Cwestiynau ac Atebion ynghylch Hysbysiadau Cosb Benodedig

Un ffordd o ddatrys problem sbwriela yn Sir Gaerfyrddin yw drwy gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig. Isod, fe gewch atebion i rai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin ynghylch Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Rwyf wedi cael Hysbysiad Cosb Benodedig am sbwriela. Rwyf wedi clywed na fydd rhaid i mi dalu'r swm yn llawn os byddaf yn ei dalu'n gyflym?

Cywir. Cost safonol Hysbysiad Cosb Benodedig am sbwriela yw £75, ond os byddwch yn talu o fewn 10 diwrnod wedi i chi gael yr hysbysiad, bydd yn gostwng i £50.

Alla i apelio yn erbyn yr Hysbysiad Cosb Benodedig?

Nid oes modd apelio yn erbyn yr Hysbysiad Cosb Benodedig. Y rheswm am hyn yw mai gwahoddiad yw'r Hysbysiad Cosb Benodedig i chi atal y broses erlyn. Golyga hynny os byddwch chi'n cytuno eich bod wedi cyflawni trosedd ac yn talu'r swm penodol ni fydd y Cyngor yn cymryd camau pellach yn eich erbyn. Mae gweithredu fel hyn yn arbed amser i bawb (gan gynnwys y troseddwr) o ran dwyn achos gerbron llys. Heblaw hynny mae'r gost sy'n gysylltiedig â Hysbysiad Cosb Benodedig yn debygol o fod yn is o lawer nag unrhyw ddirwy y bydd llys yn ei osod. Er enghraifft, gall y llys bennu cosb o hyd at £2,500 am sbwriela.

Ond dydw i ddim yn cytuno fy mod wedi cyflawni'r drosedd y cefais Hysbysiad Cosb Benodedig amdani.

Os nad ydych yn cytuno eich bod wedi cyflawni'r drosedd y cawsoch Hysbysiad Cosb Benodedig amdani, yna ymdrinnir â'r mater drwy ddwyn yr achos gerbron llys. Cyfrifoldeb y llys fydd gwrando ar y dystiolaeth a phenderfynu a gafodd trosedd ei chyflawni ac felly a ddylid pennu cosb ai peidio. Golyga hyn bod yn rhaid i chi fynd drwy broses ffurfiol y llys i apelio yn erbyn yr Hysbysiad Cosb Benodedig. Dylech gofio y gallai'r gosb ariannol y gall y llys ei phennu fod lawer yn uwch na'r Hysbysiad Cosb Benodedig.

Dydw i ddim yn gweld pam fod rhaid i mi dalu os nad oes unrhyw arwyddion am sbwriela yn yr ardal lle gollyngais y sbwriel?

Nid oes rhaid i'r Cyngor godi arwyddion ar bob stryd, ffordd, priffordd neu barc/man agored i ddweud wrth bobl am beidio â gollwng sbwriel neu i ddweud wrthynt fod patrolau sbwriel yn gweithredu yn yr ardal. Nid peth newydd yw deddfwriaeth i atal sbwriela, ac mae'n gymaint o broblem mewn sawl rhan o'r DU fel bod awdurdodau lleol ym mhob rhan o'r wlad erbyn hyn yn cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig er mwyn cael pobl i ddeall eu bod yn sbwylio ein trefi a'n dinasoedd drwy ollwng sbwriel.

Pam ddylen i dalu Hysbysiad Cosb Benodedig am sbwriela lle nad oedd biniau sbwriel wrth law?

Fel gydag arwyddion, nid yw'n rhesymol i'r Cyngor osod biniau sbwriel ar bob stryd, ffordd a phriffordd yn y sir, er y gwneir pob ymdrech i osod biniau lle mae eu hangen fwyaf a lle'r mae'r nifer fwyaf o bobl yn cerdded fel canol trefi, llwybrau cerdded i'r ysgol a phrif fannau siopa. Lle nad oes biniau ar gael, mae cyfrifoldeb ar bob un i ymddwyn yn gyfrifol a gwneud trefniadau naill ai i fynd â'r sbwriel adre neu ei gario hyd nes bydd bin sbwriel cyfleus ar gael.

Cefais Hysbysiad Cosb Benodedig am ddiffodd sigarét ar y llawr neu ei thaflu ymaith. Does bosib fod hynny'n cael ei gyfrif yn sbwriela?

Anghywir. Mae sbwriel yn cynnwys bonion sigaréts a hefyd gwm cnoi. Am sawl rheswm mae'r rhain yn fwy o niwsans ac yn ddrutach i'w clirio nag eitemau eraill o sbwriel.

Ond nid gwastraff yw bonion sigaréts mewn gwirionedd oherwydd allwch chi ddim eu rhoi mewn biniau rhag ofn iddyn nhw fynd ar dân.

Mae cyfrifoldeb ar bobl sy'n smygu i wneud yn siŵr eu bod yn diffodd eu sigaréts yn llwyr cyn eu rhoi yn y

bin. Mae gwastraff sigaréts yr un peth ag unrhyw wastraff arall o ran y deddfau sbwriel, a gallwch gael Hysbysiad Cosb Benodedig am beidio â chael gwared â bonion sigaréts yn briodol. Dylid bod yn ofalus wrth gwrs rhag achosi tân, a dylai bonion sigaréts gael eu diffodd yn llwyr ar y platiau pwrpasol a ddarperir ar rai biniau sbwriel cyn taflu'r bonion i'r bin. Does dim rheswm chwaith pam na all symgwyr (sy'n gwybod fod eu harfer o smygu yn golygu y bydd rhaid iddynt gael gwared â gwastraff y sigarét yn rhywle) gario blwch llwch gyda nhw neu greu un eu hunain drwy roi pridd neu dywod mewn tun bach. Mae gwybodaeth am wahanol fathau o finiau bonion sigaréts yn:
www.keepbritaintidy.org/Campaigns/pastcampaigns/cigarette/portableashtray/Default.aspx

Ond chefais i ddim rhybudd. Does bosib fod hynny'n deg?
Yn y blynyddoedd diwethaf rydyn ni wedi bod yn gyson yn ein hymdrechion i addysgu pobl am broblem sbwriel, drwy bosteri, taflenni gwybodaeth, erthyglau yn y wasg ac addysgu pobl ifanc am sbwriel mewn ysgolion i sicrhau eu bod yn gwybod am hyn ac yn cyfrannu at gadw'n hamgylchedd yn lân. Heblaw hynny mae mudiadau fel Cadwch Gymru'n Daclus yn gwneud gwaith ardderchog i'n helpu ni addysgu pobl am sbwriela. Ond dydy cyhoeddusrwydd ynddo'i hun yn dda i ddim os yw'r neges yn cael ei hanwybyddu. Felly, rhaid i ni gymryd ein dyletswyddau gorfodi o ddifri hefyd a gweithredu i ategu'r neges ddifrifol a phwysig hon. Dyna nod y patrolau gorfodi sy'n targedu pobl sy'n dewis anwybyddu'r deddfau sbwriel y mae'r rhan fwyaf ohonom yn eu parchu.

Os caf i fy nal, galla i godi'r sbwriel a'i roi yn y bin a fydd dim yn digwydd wedyn fydd e?
Anghywir - rydych chi wedi troseddu pa un a ydych yn cynnig codi'ch sbwriel neu beidio a byddwch yn cael Hysbysiad Cosb Benodedig.

Mae hyn yn orymateb braidd yn dyw e? Beth yw'r ffws am ychydig o fagiau creision a rhai bonion sigaréts ta beth?
Mae sbwriela'n sbwylio'n hamgylchedd, ond heblaw hynny mae'n gostus iawn i'r Cyngor. Dyma rai ffeithiau a ffigurau:

- Mae £858 miliwn yn cael ei wario yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn ar gadw'r strydoedd yn lân. Mae hynna'n £2.3 miliwn Y DYDD.
- Yn Sir Gaerfyrddin mae'n costio £2.1 miliwn y flwyddyn i lanhau'r strydoedd o sbwriel a baw cŵn.
- Rydyn ni'n casglu 40 tunnell o sbwriel yr wythnos ar gyfartaledd.